
# Y Llyfr o Brofiadau

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 **www.widgit.com**

**Comisiynydd Plant Cymru**
Children's Commissioner for Wales




| | |
|---|---|
|  | Y Llyfr o Brofiadau yw ein 3ydd adroddiad am **Fyrddau Partneriaeth Ranbarthol (RPBs).** Gallwch ddarllen yr adroddiadau eraill yma. |
|  | Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys rhai geiriau anodd. Rydym wedi eu huwcholeuo yn **las.** Defnyddiwch y rhestr eisiau i'ch helpu. |

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 **www.widgit.com**

**Comisiynydd Plant Cymru**


Children's Commissioner for Wales

# Comisiynydd Plant Cymru



| | |
|---|---|
|  | Dyma Rocio Cifuentes. Hi ydyd Comisiynydd Plant Cymru. |
|  | Ei rôl hi yw sicrhau bod holl blant a phobl ifanc yng Nghymru yn derbyn eu hawliau plant. |
|  | Hawliau plant yw'r pethau sydd angen arnoch i dyfu fyny yn teimlo'n hapus, iachus a diogel. |
|  | Mae Rocio a'i thîm wedi gweithio gyda phobl ifanc a'u teuluoedd i ysgrifennu'r llyfr hwn. |

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 **www.widgit.com**

# Neges o Rocio Cifuentes





| | |
|---|---|
|  | Mae diffyg cefnogaeth wedi bod yn bryder i ni ers amser. |
|  | Mae'r amser mae plant yn gorfod aros am asesiad yn hir iawn. |
|  | Dyw'r plant sy'n aros am asesiad ddim yn cael llawer o gefnogaeth. |
|  | Ni'n gofyn am un drws i blant a'u teuluoedd, lle bod gwasanaethau'n gweithio gyda'u gilydd yn well, er mwyn gwneud yn siwr bod plant a'u teuluoedd ddim yn gorfod wynebu systemau cymhleth wrth chwilio am y gefnogaeth sydd angen arnyn nhw. |

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 **www.widgit.com**


| | |
|---|---|
|  | Llyfr o brofiadau yw hwn, o straeon a profiadau go iawn, er mwyn tynnu sylw at y rhwystrau mae plant yn wynebu. |
|  | Mae'n rhaid i ni wella. Ni'n gobeithio bydd Llywodraeth Cymru'n gwrando ac yn sylweddoli a derbyn pa mor anodd yw hi i rai plant a phobl ifanc ar hyn o bryd. |

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 **www.widgit.com**

# Beth yw Llyfr o Brofiadau?

| | |
|---|---|
|  | Llyfr o brofiadau yw'r enw rydym wedi rhoi i'r adroddiad hwn. Fe wnaethom ei enwi'n hyn oherwydd yn yr adroddiad gwnaethom ofyn i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd am eu profiadau. |
|  | Ystyr profiadau yw pethau sy'n diwgydd yn eich bywyd. |
|  | Mae'r profiadau yn y llyfr hwn am blant, pobl ifanc a'u teuluoedd sy'n aros am asesiad ar gyfer **cyflwr Niwroddatblygiadol.** |
|  | Mae cyflyrau Niwroddatblygiadol yn grŵp o gyflyrau gall gael eu disgrifio trwy'r ffordd y mae'r ymennydd yn datblygu. Mae hyn yn cynnwys nifer o gyflyrau, ond rhai enghreifftiau yw Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth, Dyslecsia, Dyspracsia, Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorbryder (ADHD) neu syndrome Toureete a gwinigadau. |




Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 **www.widgit.com**

| | |
|---|---|
|  | Mae'r profiadau mae'r teuluoedd yn rhannu yn y llyfr hwn am ddiffyg cymorth a chefnogaeth dra eu bod nhw'n aros am asesiad. |
|  | Meddyliom ni y byddai'n bwysig i osod eu holl brofiadau at ei gilydd er mwyn atgoffa Llywodraeth Cymru, Byrddau Partneriaeth Ranbarthol (RPB) a sefydliadau eraill bod teuluoedd yn parhau i angen help. |

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 **www.widgit.com**

# Y Profiadau


Mae tair stori y nein llyfr, straeon C, N ac E. Er bod pob stori a phrofiad yn wahanol, mae yna broblemau tebyg yn codi:

| | |
|---|---|
|  | Plant a'u teuluoedd heb fawr o gefnogaeth |
|  | Plant yn gorfod aros amser hir am asesiad |
|  | Plant a'u teuluoedd yn gorfod gweithio'u ffordd o gwmpas llawer o wahanol wasanaethau yn edrych am gefnogaeth |
|   | Bywyd ysgol yn anodd |
|  | Bywydau ar stop |




Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 **www.widgit.com**

# Beth hoffai teuluoedd weld

Gofynnom i deuluoedd beth oedden nhw'n meddwl byddai'n helpu nhw a theuluoedd eraill. Dywedon nhw wrthym ni am y pethau gwnaeth helpu nhw a'r pethau hoffent nhw fod yn wahanol. Rydym wedi rhoi nhw mewn rhestr.


| | |
|---|---|
|  | **Dim drws anghywir**<br><br>Dywedodd teuluoedd wrthym hoffent nhw i wasanaethau gallu helpu eu plentyn. Os nad ydynt yn gallu helpu teuluoedd byddent yn hoffi petai nhw yn gallu eu danfon at wasanaethau byddai'n gallu helpu. Dywedodd teuluoedd bod gorfod aros am bob gwasanaeth yn golygu bod eu plentyn yn tyfu'n hŷn heb gael cefnogaeth. |
|  | **Cyfathrebu parchus**<br><br>Dywedodd blant a phobl ifanc eu bod nhw eisiau bod pobl yn siarad gyda nhw yn barchus ac mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran.<br><br>Dywedodd deuluoedd wrthym byddent yn hoffi cael y cyfle i siarad gyda gweithwyr proffesiynol i ffwrdd o'u plant. |

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 **www.widgit.com**



| | |
|---|---|
|  | **Yr Iaith Gymraeg**<br><br>Dywedodd teuluoedd wrthym fod hi'n bwysig iddyn nhw bod eu plant cael mynediad i 'r gwasanaethau meant angen yn eu hiaith gyntaf. |
|  | **Trawsnewidiadau**<br><br>Mae teuluoedd eisiau gwell cefnogaeth ar gyfer eu plant pan meant yn symud i ysgol neu wasanaeth arall. |
|  | **Y Broses**<br><br>Hoffai deuluoedd gwasanaethau weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod pawb yn deal eu rôl yn y broses a beth sydd angen i'r plentyn/ person ifanc yr asesiad a chefnogaeth briodol maent angen. |
|  | **Cefnogaeth i deuluoedd**<br><br>Mae teuluoedd wedi dweud wrthym hoffent nhw fod Awdurdodau lleol a byrddau iechyd i adolygu cefnogaeth gyfredol sydd ar gael yn lleol a chyllido mwy o gefnogaeth grwpiau cyfaill ar gyfaill lle'n bosib. |

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 **www.widgit.com**

# Rhestr Geiriau

| | |
|---|---|
|  | **Byrddau Partneriaeth Ranbarthol**<br><br>Sefydlwyd 7 Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yng Nghymru gan y Llywodraeth. Maent mewn rheolaeth o sicrhau bod gwasanaethau fel y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn gyd weithio. |
|  | **Dim drws anghywir**<br><br>Y dull mae'r Comisiynydd Plant wedi galw amdano ar gyfer pobl ifanc i gael yr help maent angen pryd bynnag maent yn gofyn amdano - felly dydyn ddim yn curo ar y 'drws anghywir'. |
| | **NEST/ NYTH**<br><br>Yn y Gymraeg, NYTH ydy rhoi Nerth; Ymddiried; Tyfu'n ddiogel; Hybu. NEST/ NYTH yw'r enw ar gynllun pob rhanbarth yng Nghymru i greu system cefnogi di-fwlch ar gyfer iechyd meddwl a llês pobl ifanc. Mae'n anelu at greu mynediad at gyngor ac arbenigedd yn gynt, ac i gefnogi oedolion sy'n cefnogi plant cael yr offer sydd angen arnynt i helpu. |

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 **www.widgit.com**

| | |
|---|---|
|  | **Niwroamrywiaeth a niwroarwahaniaeth**<br><br>Pan rydym yn siarad am niwrnoamrywiaeth, rydym yn adnabod bod gennym i gyd ffyrdd gwahanol o feddwl a theimlo, a bod ein hymennydd yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol i'w gilydd.<br><br>Mae niwroarwahaniaeth yn golygu bod yr ymennydd yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol i'r ffyrdd rydym yn ystyried yn 'nodweddiadol'. Gall hyn fod o achos beth rydym yn gallu ei alw'n cyflyrau niwroddatblygiadol, anabledd dysgu, neu o achos ei effeithiau ar wahaniaethau corfforol, fel cael anaf i'r ymennydd. |
|  | **Cyflyrau niwroddatblygiaol**<br><br>Mae cyflyrau Niwroddatblygiadol yn grŵp o gyflyrau gall gael eu disgrifio yn y ffordd mae'r ymennydd yn datblygu. Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth, Dyslecsia, Dyspracsia, Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorbryder (ADHD) neu syndrome Toureete a gwingiadau. |

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 www.widgit.com

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales